



Rheolwr/Cydlynnydd Adeiladau a Chynnal a Chadw

GRADD 13: CYFLOG: £35,745 - £ 36,922

**Cytundeb Cyfnod penodol am dwy flynedd
37 awr yr wythnos
Rhif y Swydd: 502964**

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru'n chwilio am Reolwr/Gydlynnydd Adeiladau a Chynnal a Chadw ar sail llwybr graddfa a leolir o fewn Adran Gwasanaethau Eiddo ym Mhencadlys y Gwasanaeth Tân, Parc Busnes Forest View, Llantrisant.

Rhaid i'r ymgeisydd llwyddiannus arddangos lefel dda o wybodaeth a phrofiad mewn Rheoli Prosiectau Adeiladu a bod yn ymrwymedig i sicrhau bydd ein hasedau eiddo yn ddiogel a phwrpasol.

Mae sgiliau iaith Gymraeg yn ddymunol ar gyfer y swydd hon ond nid yn hanfodol.

Gellir canfod mwy o fanylion mewn perthynas â'r swydd hon o fewn y Swydd-Ddisgrifiad a'r Fanyleb Person. Pe bai gennych unrhyw gwestiynau ychwanegol, fe'ch gwahoddir i gysylltu â'r Rheolwr Llinell, Mike Davies, Rheolwr Strategaeth Eiddo wrth e-bostio M4-davies@decymru-tan.gov.uk neu drwy ffonio 01443 232109.

Gellir lawr lwytho Ffurflen Gais, Swydd Ddisgrifiad a Manyleb Person o dudalen Gweithio i Ni/Swyddi Gwag Diweddaraf ein gwefan ar www.decymru-tan.gov.uk

Bydd angen i'r ymgeisydd llwyddiannus fod yn destun gwiriad boddhaol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ac ymgymryd â Phrawf Cyffuriau ac Alcohol cyn y gwneir unrhyw benodiad.

Dylid dychwelyd ceisiadau gorffenedig at: Y Tîm Recriwtio ac Asesu, Pencadlys Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru, Parc Busnes Forest View, Llantrisant CF72 8LX neu drwy law e-bost: personel@decymru-tan.gov.uk

Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ffurflenni cais yw 14/12/2021 ar 12:00 ganol dydd.

Mae'r holl ddogfennaeth ar gael yn Gymraeg a Saesneg ill dau a chroesawn gyfathrebiadau yn y naill iaith â'r llall. Ni chaiff ceisiadau a gyflwynir yn Gymraeg eu trin yn llai ffafriol.

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru'n credu yng ngwir werth gweithlu amrywiol ac rydym yn dymuno annog yn rhagweithiol ymgeiswyr o bob sector cymdeithas i ymgeisio.